



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales




Taith tuag at

Gymru Gydnerth

- 1: Bioamrywiaeth a Phridd:** Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir yn briodol i greu ecosystemau gweithredol iach
- 2: Mannau Gwyrdd Naturiol:** Cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol
- 3: Gwybodaeth o Natur:** Cynyddu ymwybyddiaeth o bwsigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iachach gweithredol naturiol
- 4: Dŵr ac Ansawdd Aer:** Cynorthwyo cydnerthedd ecolegol gan wneud amgylchedd iachach ar gyfer bywyd gwylt a phobl
- 5: Defnyddio Adnoddau Naturiol:** Ymaddasu i amgylchedd sy'n newid lle mae angen defnyddio adnoddau'n effeithlon





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Gydnerth

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cenedl sy’n cynnal a gwella
amgylchedd naturiol bioamrywiol
gydag ecosystemau iach, gweithredol
sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol,
economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu
i addasu i newid”.*



Diffinio'r nod

Yma yng Nghymru, rydyn ni yn awr ymhlith y gwledydd mwyaf diffygiol mewn natur yn y byd, gyda 1 o bob 14 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu.

Mae gan Gymru hefyd beth o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DG, yn dal i allyrru nifer mawr o nwyon tŷ gwydr ac yn awr mewn mwy o berygl o lifogydd, erydiad pridd ac ansawdd dŵr gwaeth. Heb ecosystemau iach gweithredol, ni allwn wrthsefyll, adennill nac addasu i'r newidiadau sy'n wynebu ein planed.

Mae ein hamgylchedd naturiol yma yng Nghymru yn allweddol ar gyfer ein llesiant: mae'n darparu'r aer yr ydym yn ei anadlu, ein bwyd, 951 miliwn litr o ddŵr yfed bob dydd, ein dillad, moddion, deunyddiau fel coed, yn ogystal â manau gwyrdd i'w mwynhau. Fodd bynnag, rydyn ni'n byw ar adeg o newid annhebyg i unrhyw beth a welwyd cyn hyn yng nghyd-destun ein planed. Mae bioamrywiaeth, 'amrywiaeth holl fywyd ar y ddaear' wedi gweld gostyngiad cyffredinol o 60% mewn

rhywogaethau ar draws y byd ers 1970. Nod Cymru gydnerth yw gwyrddo'r dirywiad yn ein hamgylchedd naturiol bioamrywiol, i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'n heffaith fel unigolion a sefydliadau, sicrhau ein bod yn ecolegol gydnerth gydag ecosystemau iach, ac yn cynorthwyo llesiant cymunedol.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Natural Resources Wales

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn cyflwyno **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)** yn nodi ymagwedd tuag at gynllunio a rheoli adnoddau naturiol i sicrhau bod y manteision a ddarperir ganddynt ar gyfer ein llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae **polisi Adnoddau Naturiol** yn nodi blaenoraethiau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol i ni i gyd gyfrannu tuag atynt.

Mae'r blaenoriaethau'n ymwneud â phrif-ffrydio gweithgaredd ar gyfer bioamrywiaeth ar draws ein hardaloedd trefol a gwledig a lleihau'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol. Bydd **datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n** cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a bydd yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n cael eu datblygu erbyn 2020. Byddant yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn lle, a byddant yn offeryn gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Cyflwynodd Adran 6 o dan Rhan I ddyletswydd ecosytemau bioamrywiaeth a chydnerthedd (dyletswydd S6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) wrth iddynt ymarfer eu gweithgareddau mewn perthynas â Chymru. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yng [Nghannllaw Hanfodion Llywodraeth Cymru](#).

[Mae'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\)](#) yn gosod y sail ar gyfer testiolaeth cenedlaetholar ar gydnerthedd ecosystemau yng Nghymru fel y gallwn ddeall i ba raddau y mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gyflawni. Y blociau adeiladu cydnerthedd ecolegol yn Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd a Hyblygrwydd

Mae **Polisi Cynllunio Cymru'n** gwneud cyfraniad arwyddocaol i welliant llesiant yn ei holl agweddau ac yn sefydlu ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy ein symud tuag at gymdeithas garbon isel, gydnerth ag amgylcheddau â chysylltedd da ar gyfer pawb yng Nghymru. Gall y system gynllunio gyfrannu tuag at wella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol, gan atal a gwyrddroi colli bioamrywiaeth, cynnal a gwella seilwaith gwyrdd, sicrhau dewisiadau cydnerth ar gyfer seilwaith a'r amgylchedd adeiledig, gan symud tuag at economi mwy cylchol yng Nghymru; a hwyluso datgarboneiddio

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'Ad'

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy tebygol o ddigwydd pan

- **Gweithredu'n ddigon cyflym i ymladd colli bioamrywiaeth.**
- **Digwyddiadau ac ymgyrchoedd yn cynyddu ymwybyddiaeth (e.e. 'Blue Planet 2') a fedr ddwyn y pwnc i'r 'bwrdd gwleidyddol'.**
- **Pan gydnabyddir bod Seilwaith Gwyrdd yn ddull effeithiol y gellir ei gyflwyno i liniaru nifer o heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.**
- **Sefydliadau (yn cynnwys busnes) yn deall ac yn gweithio i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), SMNR, adroddiad SoNaRR, Polisi Adnoddau Naturiol a Pholisi Cynllunio Cymru.**
- **Sefydliadau cymunedol yn cael eu galluogi i sbarduno newid yn eu hardal i sicrhau bod natur yn rhywbeth y gellir ei gyrchu a'i werthfawrogi gan bawb.**



Analluogwyr

Achi Mae cyflawni'r nod hwn yn llai tebygol o ddigwydd pan

- **Grantiau amgylcheddol yn llai ac yn rhwystrol ac am dymor byr yn unig.**
- **Twf economaidd, yn cynnwys swyddi a busnes, yn cael blaenoriaeth dros yr amgylchedd naturiol, gyda niwed amgylcheddol yn cael ei gyfaddawdu er mwyn twf yn y tymor byr.**
- **Methiant i gynllunio, dylunio a rheoli seilwaith gwyrdd yn digwydd o'r cychwyn cyntaf mewn rhaglenni a phrosiectau.**
- **Ffocws ar wastraff, trafnidiaeth ac ynni, i ffwrdd oddi wrth yr amgylchedd naturiol.**
- **Diffyg gwybodaeth - seilwaith gwyrdd yn cael ei weld fel rôl adran yr amgylchedd.**





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Gydnerth

3: Gwybodaeth o Natur

Cynyddu ymwybyddiaeth o natur ar draws POB maes gwaith, a'i osod yng nghanol penderfyniadau

Diffinio'r mater

Yn aml mae'r amgylchedd naturiol yn cystadlu â thwf economaidd, a swyddi a busnes yn cael blaenoriaeth. Mae angen i ni sicrhau bod yna **ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad** ym mhob maes gwaith drwyddi draw o'r manteision cyhoeddus y gellir eu cyflwyno gan y Seilwaith Gwyrdd, sy'n mynd tu hwnt i'r hyn sy'n bosibl drwy ymagweddau 'busnes-fel-arfer traddodiadol'. Mae angen i ni sicrhau bod Seilwaith Gwyrdd yn rhan hanfodol o bob penderfyniad drwy gynllunio, polisiau a datblygiadau.

Yn 2010 dangosodd yr adroddiad 'Every Child Outdoors' y gall natur gael effeithiau cadarnhaol ar addysg, iechyd corfforol, llesiant emosiynol a sgiliau personol a chymdeithasol. Os oes gan blant gysylltiad â natur, maen nhw'n fwy tebygol o'i fwynhau a dymuno ei achub. Darganfu ymchwil RSPB mai dim ond 21% o blant rhwng 8 a 12 mlwydd oed yn y DG oedd yn cysylltu â natur ar lefel a ystyrir fel un realistig ac fel rhywbeth y gellir ei gyflawni gan bob plentyn.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Pwnc 4: Diwylliant yn galluogi llewyrch a chydnerthedd

Gwneud Newidiadau Syml

Cynhwyswch gyfleoedd

i ddysgu a chynyddu ymwybyddiaeth gweithiwr o Seilwaith Bioamrywiaeth/ Gwyrdd sy'n berthnasol i'r gwahanol feysydd gwasanaeth ledled eich sefydliad (gallai dysgu fod drwy gyfrwng cylchlythyrau, cinio a dysgu, gweminarau, cyrsiau hyfforddi, cysgodi gwaith, tudalennau gwe etc.)

Ee

E.e. Rhaglen hyfforddi SMNR dewy holl sefydliad [Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

“Ym mis Medi 2017, cychwynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar raglen hyfforddi yn ymwneud â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)

gan gydnabod ble mae pobl yn awr, a sut y gallant ystyried SMNR ym mhopeth a wnânt wrth symud rhagddynt. Mae'r cwrs yn orfodol ar gyfer yr holl staff, o'r timau cyfreithiol, Adnoddau Dynol, a Chaffaeliad i'w timau Llifogydd, Timau Gweithredu a Thrwyddedu gyda phresenoldeb yn cael ei annog yn frwdfrydig gan reolwyr llinell, uwch reolwyr yn ogystal â'r Tîm Gweithredol. Mae'r tîm hyfforddi yn awr yn darganfod fod staff sydd wedi mynychu'r hyfforddiant o'r farn ei fod mor ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith o ddydd i ddydd fel eu bod yn annog eu cydweithwyr i'w fynychu. Gan fod yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno'n fewnol, gall

yr hyfforddwyr ddefnyddio prosiectau ac enghreifftiau o fywyd go iawn y mynychwyr i ddangos sut y gallant wella effeithiolrwydd eu gwaith drwy ystyried 9 egwyddor yr SMNR; mae'r egwyddorion hyn yn adlewyrchu ac yn gwneud dulliau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o weithio'n rhan hanfodol o'u gwaith. Drwy ennyn ymgyfraniad staff o bob rhan o'r sefydliad, mae'r dysgu'n adeiladu ar gyd-wybodaeth a phrofiad cyfranogwyr sy'n awyddus i'w rannu gydag eraill.”

Ymgorffori Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gwneud **Newidiadau** Syml

Ee

E.e. Datblygodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** dudalen gwefan i helpu staff i ddeall a chymryd rhan mewn materion ar gynaliadwyedd, amgylchedd, a thrafnidiaeth.

Annog staff i rannu a datblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd mewn perthynas â natur; ystyried cynlluniau mentora, fforymau, dyddiau ymwybyddiaeth, gweithio cysgodol, cyfnewid staff a'u dwyn o gwmpas y swyddfa, fel rhwydwaith cyfnewid arfer da cyson.

Ee

E.e. Mae Prosiect Cydweithredol **Greening Our City - Innovate Trust & Cardiff City Park** yn helpu i roi i bobl ag anableddau y cyfle i weithio ochr yn ochr â thîm Ceidwad Parc Cymunedol Caerdydd yn y gwaith o reoli manau gwyrdd a pharciau <https://www.innovate-trust.org.uk/our-work/greening-our-city>

Hwyluso ac annog staff vsy'n wneud gwaith gwirfoddol gyda sefydliadau amgylcheddol a grwpiau cymunedol yn ystod/tu allan i oriau gwaith.

Ee

E.e. enghreifftiau o **Weithwyr yn Gwirfoddoli**: Glanweithdra Traeth Cymdeithas Cadwraeth Morol; <https://www.mcsuk.org/beachwatch/>
Cadwch Gymru'n Daclus <https://www.keepwalestidy.cymru/teambuilding>

Dewiswch staff o fewn eich sefydliad i fod yn bwynt cyswllt i grwpiau a phrosiectau

Ee

E.e. **y prosiect Croeso i'n Coedwigoedd** - staff i ddeall manteision y prosiect <http://welcometoourwoods.ac4.amitywebsolutions.co.uk/>

Gwneud Newidiadau Syml

Galluogi partneriaethau

Ileol ar gyfer pob agwedd o'r amgylchedd naturiol gan ddwyn at ei gilydd gynrychiolwyr o sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus

Ee

E.e. **Fforwm Amgylcheddol Abertawe**

<http://swanseaenvironmentalforum.net/>

Adnabod a hybu cyfranogiad

mewn arolygon Gwyddoniaeth Dinasyddion a Dyddiadau Cofnodi Cenedlaethol i gynyddu cofnodion biolegol.

Addysgu, ysbrydoli ac ennyn

ymgyfraniad pobl mewn Diwrnodau Cenedlaethol a Rhyngwladol, megis Diwrnod Amgylchedd y Byd
<https://www.biodiversitywales.org.uk/Wythnos-Natur-Cymru>

<http://worldenvironmentday.global/>

Arolygu safleoedd sy'n eiddo i chi neu yr ydych yn gweithio gyda nhw, i ddeall yn y lle cyntaf beth sydd yno, e.e. drwy 'Bioblitzes', gyda gwirfoddolwyr lleol ac arbenigwyr, cyn cychwyn ar reoli priodol.

Ee

Pan yn gweithio gydag

ysgolion a phobl ifanc hybu a chynorthwyo'r rhai sy'n cychwyn mentrau megis Eco-Ysgolion, Ysgolion Coedwigoedd, Maint Cymru e.e. mae 800 o ysgolion ar hyn o bryd wedi cofrestru o dan gynllun Eco-Ysgolion Cymru
<https://www.keepwalestidy.cymru/our-schools>

E.e. **Mae Cyngor Caerffili'n**

annog a chynorthwyo Eco-Ysgolion
<https://your.caerphilly.gov.uk/sustainablecaerphilly/schools-and-esdgc/eco-schools>

Cynnwys arwyddion ar holl gynlluniau plannu naturiol i addysgu'r cyhoedd am y planhigion, rheoli, a'r manteision i bobl a bywyd gwyllt.

Bod Yn Fwy Anturus

Cydweithio gydag eraill i ddarparu stafelloedd Hyfforddi Cymunedol/cyfleusterau lle gall staff neu gydweithwyr ddysgu technegau tyfu, ochr yn ochr ag arbenigwyr.

Ee

E.e. Prosiect Tyfu i Lwyddo yn Nhai Gwydr Cyfarthfa
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

E.e. **Cwm Tawe Uchaf Prosiect** Cymunedau Gwyllt – Gweithio gyda sefydliadau megis MIND, Jobcentre Plus a Chymunedau'n Gyntaf.
<https://www.welshwildlife.org/living-landscapes/upper-tawe-valley-the-wild-communities-project/>

Mae gan **Reolwyr Tir Cynaliadwy** a thimau cynnal a chadw tiroedd gyfleoedd parhaus i ddatblygu eu gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol a'r sgiliau diweddaraf.

Cwblhau Gwiriad Iechyd [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.](#)

Amddiffyn diwrnodau staff i alluogi staff i ymweld â phrosiectau lleol perthnasol a chwrdd â phobl allweddol sy'n sbarduno newid.

Gweithio mewn partneriaeth â [Chanolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol](#) i adnabod, cofnodi a rhannu'r hyn sydd ar eich ystad a chynorthwyo cofnodwyr lleol gwirfoddol.

Cynnal a chadw, gwella, creu neu ôl-osod manau gwyrdd naturiol ('Ardaloedd Gwyllt') gydag ysgolion heddiw a rhai'r dyfodol).

Ee

E.e. yn **Sir Ddinbych** mae plant o Ysgol Stryd y Rhos, ysgol gynradd yn Rhuthun wedi cael mynediad i ddarn gwarchoddedig o dir ar bwys eu hysgol fel 'dosbarth awyr agored' a lle byddant yn helpu i fonitro rhywogaethau sydd mewn perygl tra'n gweithredu tasgau ymarferol a gwerthu unrhyw isgynnyrch (megis basgedi helyg wedi eu gwehyddu).

Bod Yn Fwy Anturus

Pan yn gweithio gyda phobl ifanc, cynorthwyo dysgu cyson yn yr awyr agored i bob plentyn ysgol, gyda dysgu ychwanegol i athrawon am fanteision natur.

Ee

E.e. mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont** ar Ogwr yn datblygu mannau gwyrdd fel mannau dysgu'r blynyddoedd cynnar, gan ddarparu gweithgareddau a chyfleusterau gyda'r bwriad o ddysgu arbrofol ar gyfer plant yn yr awyr agored. Bydd adnoddau athrawon a theuluoedd yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod sylfaen i facsimeiddio dysgu'r blynyddoedd cynnar yn yr awyr agored.

Gweithio gyda phobl phobl â sgiliau a chrefftau traddodiadol, sy'n gweithio gyda'r amgylchedd naturiol, gan annog cynlluniau hyfforddi i addysgu'r rhain fel dull o reoli eich ystad.

Gweithio gydag eiriolwyr cymunedol a grwpiau (megis Eiriolwyr Cymunedol Hinsawdd) i fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u hymroddiad wrth gychwyn mentrau newydd

Ee

E.e. Sefydlwyd Eiriolwyr Cymunedol Hinsawdd **Sir Fynwy** yn 2008 pan ddatblygodd Cyngor Sir Fynwy ei Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy, gan gydnabod bod grwpiau cymunedol eisoes yn gwneud llawer ar ynni a'r hinsawdd.

Ymgysylltwch ag arbenigwyr arbenigwyr i gyflawni hyfforddiant i'r holl staff yn eich sefydliad ac adeiladu ar ddysgu am Seilwaith Gwyrdd ac SMNR.

Perchnogi Eich Uchelgais

Gweithredu ar y cyd neu'n genedlaethol

Sefydliadau niferus yn gweithio'n rhagweithiol a chydweithredol ar raddfa tirwedd i ddatrys heriau lleol.

Sicrhau bod stiwardiaeth amgylcheddol yn rhan hanfodol o addysg yng Nghymru, gan greu cwlwm rhwng plant a natur sy'n hollbwysig, a gwneud dysgu yn yr awyr agored yn rhan hanfodol o bob agwedd ar y cwricwlwm.

Buddsodd yn ein gwybodaeth a'n tystiolaeth o ffynonellau naturiol i sicrhau ein harbenigedd yn y dyfodol mewn tacsonomeg, ecoleg a gwarchod natur.

Ymrwymiad i ariannu sefydlog a diogel ar gyfer [Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol](#) ledled Cymru.

Perchnogi Eich Uchelgais

Gweithredu Sefydliadol

Dod yn Sefydliad

sy'n [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) i alluogi eich staff i wirfoddoli gyda phrosiectau amgylcheddol yn rheolaidd.

Secondio eich staff grwpiau amgylcheddol a chymunedol neu sefydliadau am dymor byr neu leoliadau tymor hwy, i rannu sgiliau a datblygu cyfleoedd i wella dealltwriaeth o natur a'r amgylchedd.

E.e. Bydd Rhaglen Profiad Tymor Byr **Llywodraeth Cymru** (STEP) yn hybu cysylltiadau rhwng gweision sifil a'r trydydd sector ar draws ystod o adrannau.

Dangos yn glir bod gwybodaeth am Fioamrywiaeth yn cael ei fwydo i mewn a'i ystyried yn gynnar yn y broses benderfynu ar gyfer pob prosiect.

Ffocysu ar yr amgylchedd o fewn Cynlluniau Prentisiaeth i ehangu sgiliau a mynediad i swyddi 'Gwyrdd'.

E.e. cyn hyn bu **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn rhedeg prosiect hyfforddeion i hybu gyrfaedd mewn cadwraeth. <https://governance.beacons-mpa.gov.uk/documents/s28211/NPA%20Information%20report%20BBNPA%20Skills%20programmes%20February%202018.pdf>

Ee

Ee

HOME

Enghreiffitiau eraill ac adnoddau

Bwriad **Speakers 4**

Schools yw rhoi diwedd ar anghydraddoldeb addysgol drwy roi i holl bobl ifanc fynediad i'r cyfleoedd uchaf drwy sgysiau ysgol ysbrydoledig a lleoliadau profiad gwaith a fydd yn agor eu llygaid.

<https://www.speakers4schools.org/news/25-more-leaders-to-give-talks-for-the-great-british-plastics-challenge/>

Mae Pecyn Cymorth **Gwirfoddoli Amgylcheddol y WCVA** yn rhoi manylion am

sut i ddod o hyd i gyfleoedd.
https://drive.google.com/file/d/1D6G44aq_XQf-nzK60HggV5CmYHQVxTC7/view

Mae **Cynnydd Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru'n** dangos sut

mae gan bawb y potensial i symud o fod yn rhan o'r amgylchedd naturiol a chysylltu â hi i sefydlu ymddygiadau cadarnhaol gydol oes
<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/education-learning-and-skills/whats-your-connection-with-nature-like/?lang=cy>

Mae yna nifer o **Arolygon Gwyddonol Dinasyddion** y gall

pobl a sefydliadau gymryd rhan ynddynt – mae llawer wedi eu rhestru yn yr adnodd hwn.
https://www.wcva.org.uk/media/6365174/recording_the_natural_world_-_toolkit__welsh_.pdf